Statws Gwasanaethau

Tachwedd 2020

#2

# barcud

## Gwaith Atgyweirio

Byddwn yn parhau i gyflawni gwaith atgyweirio mewn cartrefi lle mae pobl yn byw a'r tu allan, ond gan gymryd y camau canlynol:-
Cyn dod i mewn i'ch cartref, bydd ein contractwyr yn gwirio nad oes gan neb symptomau Covid-19 a byddant yn gofyn i bawb sy'n byw yno symud i ystafell arall. Mae pob un o'n timau wedi cael Cyfarpar Diogelu Personol a byddant yn ei wisgo er mwyn eu diogelwch nhw a'ch diogelwch chi. Byddant hefyd yn sychu unrhyw arwynebau y byddant yn eu cyffwrdd.

## Gwaith Wedi'i Gynllunio

Bydd y gwaith hwn yn parhau os yw hynny'n ddiogel. Bydd ein contractwyr yn gwirio nad oes gan neb yn eich cartref symptomau Covid-19 a byddant yn gofyn i bawb sy'n byw yno symud i ystafell arall tra byddant yn gweithio. Bydd gwaith allanol sydd wedi'i gynllunio yn parhau.

## Archwiliadau Nwy, Olew, Larymau Tân a Thrydan

Mae'r archwiliadau hyn yn parhau'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, oherwydd maent yn hanfodol i'ch diogelwch parhaus. Byddwn yn cynnal yr archwiliadau'n ofalus ond bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym os oes gan rywun yn eich cartref symptomau Covid-19.

## Gwasanaethau Glanhau

Rydym yn parhau i lanhau mewn cynlluniau tai gwarchod ac ardaloedd cyffredin, os yw'n ddiogel gwneud hynny.

## Gwasanaethau Gofalwyr Ystâd

Bydd y gwasanaethau gofalwyr ystâd yn parhau, ac eithrio mewn ardaloedd chwarae oherwydd bod y rheini yn dal ar gau. Bydd taliadau gwasanaeth yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, felly dim ond am y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni y bydd tâl yn cael ei godi arnoch.

## Cynlluniau Tai Gwarchod a Phobl Hŷn

Dim ond os oes angen cyswllt hanfodol ar gyfer tenantiaid hŷn neu denantiaid mwy bregus y dylai pobl ymweld â'r cynlluniau hyn, a rhaid iddynt wisgo gorchudd wyneb mewn ardaloedd cyffredin. Mae pob un o'r lolfeydd cyffredin yn y cynlluniau ar gau.

## Gosod Eiddo

Byddwn yn parhau i osod eiddo a bydd modd gweld yr eiddo dan sylw cyhyd â bod y mesurau diogelwch perthnasol ar waith. Bydd yr un peth yn wir os bydd angen llofnodi cytundebau tenantiaeth newydd.

## Terfynu Tenantiaeth

Pan fyddwch wedi rhoi rhybudd i ni, byddwn yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthych sut y gallwch ddychwelyd yr allweddi i'r eiddo.

## Swyddfeydd Barcud a'i Wasanaethau i Gwsmeriaid

Mae ein swyddfeydd ar gau i ymwelwyr, felly dylech gysylltu â ni drwy ein llinellau ffôn arferol, drwy ebost neu drwy'r wefan.

## Talu Eich Rhent

Gallwch dalu eich rhent mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ddebyd uniongyrchol, ar-lein, gan ddefnyddio Cerdyn Talu AllPay mewn swyddfa bost neu siop lle mae logo PayPoint i'w weld, neu drwy ffonio ein swyddfeydd.
Os ydych yn cael trafferth talu eich rhent, dylech gysylltu â ni cyn gynted ag sy'n bosibl gan fod gennym staff arbenigol yn ein tîm Cynnal sydd wrth law i'ch helpu.

**Rydym yma i helpu. Felly, os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ffonio 0300 111 3030 neu anfon ebost i: post@barcud.cymru**